

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Mynydd Bychan

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gymuned gynhwysol a chefnogol dros ben, sy’n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith clòs a thwymgalon yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy’n meithrin awyrgylch o ddysgu brwd ac ymdeimlad cadarn o berthnasedd i deulu’r ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig iawn yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn awyddus i gydweithio â’r staff a’i gilydd, ac o ganlyniad, i lwyddo fel dysgwyr hyderus ac uchelgeisiol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a chymwyseddau digidol pwrpasol a bron bob un yn gweithredu medrau cymdeithasol llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynllunio’r cwricwlwm yn ddeallus sydd yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol iawn i ddisgyblion. Mae deilliannau disgyblion yn dda lle mae’r addysgu a’r adborth ar eu gwaith yn heriol a chyson. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn perthyn i’r ddarpariaeth ynglŷn â datblygu medrau rhifedd disgyblion ac adborth athrawon i dargedu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion.

Mae staff yn cefnogi a gofalu am ddisgyblion yn gyson a chydwybodol iawn. Mae hyn yn cyfrannu at awydd disgyblion i ddysgu a dyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn annog disgyblion yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain. Mae’r cymorth i hybu dysgu a lles disgyblion, a’u gallu i ddefnyddio’r gefnogaeth hon yn ystyrlon, yn nodwedd gref o’r ysgol. O ganlyniad, mae eu hymddygiad yn ardderchog.

Mae staff yn defnyddio’r adeilad yn gynhyrchiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol i hybu’r dysgu. Mae darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar wella medrau disgyblion trwy weithgareddau sbardunol. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol iawn sy'n bodoli gyda rhieni.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn grefftus iawn ac yn ysbrydoli’r staff i sicrhau bod dysgu a lles disgyblion yn flaenoriaethau cyson. Mae hyn yn ganolog i’w gweledigaeth uchelgeisiol. Mae hi’n gweithio’n ddiwyd gyda’r staff a’r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, sy’n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol ac arloesol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gwbl effeithiol gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd, trylwyr a chywrain. Mae gweithgareddau monitro’r ysgol yn arwain at gynlluniau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

# Argymhellion

**A1** **Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm**

**A2** **Sicrhau bod ansawdd adborth gan athrawon yn gyson er mwyn targedu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Mynydd Bychan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 178 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 30/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.